

Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Gyflawn Ebrill 2018

Mae Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar yr ymgeisydd angen unrhyw oruchwyliaeth.

Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 19

Llwyddo: 6

Er mai rhyw draean o'r ymgeiswyr fu'n llwyddiannus yn y rownd hon, braf yw medru dweud bod safon y ceisiadau yn gyffredinol gryf, a bod sawl un arall o fewn trwch blewyn i lwyddo. Wrth ysgrifennu'r geiriau hynny, rwy'n ymwybodol na fyddant yn rhoi llawer o gysur i'r rhai hynny a ddaeth mor agos at gyrraedd y safon, ond rhaid cyfeirio unwaith yn rhagor at baragraff cyntaf yr adroddiad hwn, sef y diffiniad o Aelodaeth Gyflawn. Er bod modd, yn naturiol, maddau ambell lithriad bach o dan amodau arholiad, ystyr Aelodaeth Gyflawn yn ei hanfod yw bod y cyfieithiad a gyflwynir gan yr ymgeisydd yn lân, heb fod angen ei ddiwygio na'i gywiro. Braf yw gallu nodi, er bod nifer heb lwyddo'r tro hwn, na chafwyd yr un ymgeisydd gwan, ac y gellid tybio bod llwyddiant o fewn cyrraedd i bawb yn y rownd hon.

Roedd y darnau a ddewiswyd yn fwriadol heriol, ac mewn cyferbyniad amlwg â'i gilydd, er mwyn i'r ymgeiswyr gael cyfle i ddangos eu doniau, yn ogystal â'u gallu cyffredinol i ymdopi â'r darnau. At ei gilydd, roedd y safon yn eitha gwastad ar draws y ddau ddarn, er i sawl un gael mwy o drafferthion ystyr yn yr ail ddarn. Braf hefyd yw gallu dweud, fel y disgwyliad ar y lefel hon, mai prin iawn oedd y gwallau cywirdeb.

Roedd geirfa'r darn cyntaf, oedd yn trafod gwenyn, yn llai cyfarwydd, ac mae'n bosibl bod hynny wedi cyfrannu at rai o'r gwallau ystyr a welwyd, ond gwendid mwy difrifol yn y ddau ddarn oedd y duedd i gyfieithu'n rhy lythrennol, fel bod y cywair a'r gystrawen yn dioddef. Dyma rai enghreifftiau o hynny:

provide valuable pollination services
darparu/gynnig gwasanaethau peillio

a meaty feast
gwledd gigog

many of the predicted consequences of climate change
bydd llawer o ganlyniadau newid yn yr hinsawdd a ragwelwyd
caiff nifer o ganlyniadau newid yn yr hinsawdd a broffwydir

Patagonian cuisine consisted of grilled lamb and tripe stew
roedd bwyd Patagonia yn cynnwys cig oen...

Patagonia covers some 400,000 square miles
Mae Patagonia'n gorchuddio...

this loss and fragmentation of valuable natural habitats
mae'r drylliad a'r colled hwn o gynefinoedd naturiol, gwerthfawr

and increase their susceptibility to parasites
a chynyddu pa mor agored ydynt i barasitiaid

Welsh-themed teashops
siopau te gyda thema Gymreig

and report unusually high rates of decline
ac yn adrodd graddfa anarferol o uchel mewn dirywiad

aboard the Mimosa
ar ben y Mimosa

Ond cafwyd ymgeiswyr eraill yn llwyddo i gyfleu'r un rhannau o'r gwaith mewn ffordd oedd yn llawer mwy naturiol Gymreig, ac o ganlyniad yn cyrraedd y safon a ddisgwylir ar y lefel hon, e.e.:

all provide valuable pollination services
i gyd yn beillwyr gwerthfawr

monocultures
amaethyddiaeth ungnwd/tyfu un cnwd yn unig

predicted consequences of climate change
effeithiau a ragwelir yn sgil y newid yn yr hinsawdd

I was blown away
cefais fy llorio

established tourism
twristiaeth wedi ennill ei phlwyf

in a very real sense, our lives depend on theirs

a'r gwir amdani yw bod ein bywydau ni'n dibynnu ar eu bywydau nhw

There is also growing evidence that exposure to pesticides may compromise the immune system of bees, and increase their susceptibility to parasites

Mae mwy a mwy o dystiolaeth hefyd y gall dod i gysylltiad â phlaleiddiaid wanbau system imiwneidd gwenyn a'i gwneud yn haws i barasitiaid effeithio arnynt

meaty feast

gwledd o gig

the wilderness still rules

y diffeithwch sy'n teyrnasu o hyd

Welsh-themed teashops

tai te Cymreig

Bees in Decline

Gwenyn ar Draï

a collage of islands

yn glytwaith o ynysoedd

For my first forays into Patagonia, I left behind my guidebooks and travelogues.

Y tro cyntaf i mi fentro i Batagonia, gadewais fy llyfrau teithio gartref.

Mae enghreifftiau fel y rhain nid yn unig yn dangos gallu'r ymgeiswyr i gyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir, ond hefyd eu gallu i fynd o dan groen y darn, fel petai, a gweld y tu hwnt i'r geiriau unigol, gan gyfleu neges a naws y gwreiddiol yn llwyddiannus yn yr iaith darged. Dyma'n union y lefel o ddealltwriaeth a ddisgwylir gan Aelodau Cyflawn, gan fod disgwyl iddynt fedru ymdopi â gwaith amrywiol iawn, a'i gyfieithu i Gymraeg glân, graenus.

Fel y dengys yr enghreifftiau hyn, er bod rhai gwallau ystyr, cywair a chystrawen i'w gweld yn y gwaith, roedd y gwallau hynny'n gorgyffwrdd, a hynny'n bennaf oherwydd methiant yr ymgeiswyr i gymryd cam yn ôl ac edrych ar y brawddegau yn eu crynswth. Mewn darnau fel y rhain, lle gall cyfieithu'r mynegiant yn llwyddiannus fod yn heriol dros ben, rhaid ceisio cyfleu neges y darn fesul brawddeg, yn hytrach na mynd yn rhy gaeth i eiriau unigol a threfn y frawddeg wreiddiol. Yn ei hanfod, methiant i wneud hynny barodd i waith sawl ymgeisydd lithro o dan y safon angenrheidiol.

Y brif anogaeth i'r ymgeiswyr y tro hwn, felly, yw eu bod yn darllen eu cyfieithiad fel petai'n ddarn cwbl annibynnol cyn ei gyflwyno. O wneud hynny, dylent ddod yn ymwybodol o'r manau lle mae arddull yr iaith wreiddiol yn rhy amlwg yn y cyfieithiad ac yn amharu arno. Fel y soniwyd eisoes, ni chafwyd dim ymgeiswyr gwan yn y rownd hon, a braf iawn yw gallu dweud hynny, ond mae angen i'r rhai a fu'n aflwyddiannus y tro hwn fentro cyfleu ystyr y gwreiddiol mewn Cymraeg naturiol, heb adael i'r gwreiddiol ddylanwadu'n ormodol arnynt. Pan fyddant wedi meistrolï hynny, byddant wedi cyrraedd safon Aelodaeth Gyflawn.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 6

Llwyddo: 3

Er mai nifer cymharol fach a safodd yr arholiad y tro hwn, cafwyd cyfradd llwyddo o 50%, ac nid oedd neb o'r lleill ymhell o llwyddo, er bod sawl un wedi cael gwell hwyl ar y darn cyntaf na'r ail. Braff yw gallu dweud, felly, bod yr holl ymgeiswyr o fewn cyrraedd i'r safon a ddisgwylir ar y lefel hon. Fel yn yr enghreifftiau a ddyfynnwyd o'r gwaith i'r Gymraeg, tuedd yr ymgeiswyr yn y manau lle roedd y cyfieithu'n aflwyddiannus oedd glynu'n rhy agos at batrwm y gwreiddiol, heb gymryd cam yn ôl i ganfod union ergyd a phwyslais y darn dan sylw.

Roedd gwaith pawb o'r ymgeiswyr yn cynnwys enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus, ac roedd rhai yn arbennig yn cyfleu ystyr y gwreiddiol mewn ffordd naturiol, idiomatig yn Saesneg, e.e.:

Ambell fra
the odd bra

beth sy'n sbwriel i chi yn drysor i rywun arall
one woman's trash is another woman's treasure

wedi ei saernio'n gelfydd y tu hwnt
very skilfully crafted

ymlacio wrth ei darllen
relax into reading it

bydolwg y cymeriadau
the world view of the characters

i ladd ambell orig segur y tu ôl i'r bar
to while away a few quiet periods behind the bar

na fyddant byth yn cael eu defnyddio eto
that will never again see the light of day

Mae enghreifftiau fel y rhain yn sicrhau bod y cyfieithiad yn darllen fel darn gwreiddiol yn yr iaith darged ac yn argyhoeddi'r darllenydd.

Mewn cyferbyniad ag enghreifftiau llwyddiannus fel y rhain, fodd bynnag, cafwyd hefyd enghreifftiau o gyfieithu lle collwyd yr ystyr, e.e.:

Bra i bawb o ferched y byd
A bra for one and all from the women of the world

penwythnos preswyl

a two week... residential course

yr awydd i gyrraedd y diwedd glo (anghofiedig)
the (forgotten) urge to reach the end

a hefyd rai lle nad oedd y gair a ddewiswyd yn gweddu i'r cyd-destun, e.e.:

bydolwg [y cymeriadau]
worldliness

stori ogleisiol
a teasing story

i gynhyrfu'r [emosiynau]
invoke

adnabyddiaeth drylwyr o genre
a thorough identification of genre

Enghraifft arall o hyn oedd 'iaith rywiog werth chweil', a achosodd anhawster i bawb o'r ymgeiswyr. Cafwyd cynigion chwithig megis 'cultivated', 'delicate' a 'thriving' er bod dewisiadau eraill megis 'robust' ac 'excellent' yn gweddu'n llawer gwell i'r cyd-destun.

Fel yn achos y cyfieithu i'r Gymraeg, felly, y gwendid oedd yn peri i'r ymgeiswyr aflwyddiannus fethu oedd eu hanallu i sicrhau cyfieithiad oedd yn llifo'n naturiol yn Saesneg, yn ogystal â chyfleu ystyr y gwreiddiol. Gwaetha'r modd, mae'r cyfryngau a'r we yn llawn enghreifftiau o Saesneg gwael, bratiog, ond mae angen i gyfieithwyr sydd o ddifri ynghylch eu gwaith fynd ati i chwilio am enghreifftiau o ysgrifennu cadarn, er mwyn cryfhau eu sgiliau eu hunain a sicrhau safon sy'n wirioneddol broffesiynol yn eu gwaith.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch o galon i'r holl farcwyr ac i staff y swyddfa am eu gwaith trylwyr a'u holl gymorth a'u cefnogaeth i'r Prif Arholwr.

Fiona Gannon
Mehefin 2018